DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Talbot Street, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr Arolygiad: 26 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Ebrill 2017

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-9066-6
© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 5

    Ansawdd profiad y claf .......... 5

    Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .......... 8

    Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .......... 15

5. Y Camau Nesaf .......... 16
6. Methodoleg .......... 17

    Atodiad A .......... 19

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Talbot Street yn 24 Talbot Street, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, CF34 9BW, ar 26 Ionawr 2017.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Deintyddol Talbot Street yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Talbot Street yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Maesteg a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol Talbot Street yn bractis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, pedair nyrs ddeintyddol (y mae un ohonynt yn cyflawni swydd rheolwr y practis yn rhan-amser hefyd) a dau dderbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol GIG a phreifat.

## 3. Crynodeb

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod Practis Deintyddol Talbot Street yn bodloni'r safonau gofynnol i ddarparu gofal diogel effeithiol. Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac wedi ymrwymo i ddarparu safon uchel o ofal
- Roedd offer digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân yn gyffredinol
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn briodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymell y gallai'r practis ei wella:

- Datblygu prosesau ar gyfer cofnodi canmoliaeth, pryderon a chwynion a chyflwyno ffordd o wrando ar adborth gan gleifion, dysgu ohono, a gweithredu ar ei sail
- Gwneud gwaith atgyweirio gweddilliol ar gadeiriau deintyddol a chypyrddau yn yr ystafelloedd triniaeth
- Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddaru'r asesiadau risg amgylcheddol yn y meysydd a nodir
- Adolygu'r archwiliadau cynnal a chadw beunyddiol ar gyfer dadheintio offerynnau
- Cadw archwiliadau diogelu a diweddariadau hyfforddiant yn gyfredol
- Ansawdd y broses o gadw cofnodion cleifion
- Trefniadau sicrhau ansawdd mwy cadarn
- Prosesau diogelu data.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Canfuwyd tystiolaeth gennym fod y practis wedi ymrwymo i gynnig profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a dderbyniwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Mae angen i'r practis ddatblygu proses ganolog ar gyfer cofnodi canmoliaeth, pryderon a chwynion. Mae angen i'r practis ddatblygu system ar gyfer gofyn am adborth cleifion fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith y cleifion i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelyd cyfanswm o 18 o holiaduron. Nododd y cleifion yn ddieithriad eu bod yn cael eu croesawu ac yn fodlon â'r gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *"Mae'r practis hwn wedi gwneud cymaint o argraff arnaf i; mae staff y dderbynfa yn wresog ac yn groesawgar iawn. Mae fy neintydd a'i chynorthwyydd bob amser yn cymryd amser i esbonio'r hyn y maen nhw'n ei wneud ac ateb unrhyw gwestiynau yr wyf yn eu gofyn yn llawn."*
>
> *"Practis hyfryd a chyfeillgar. Staff gwych a chyfathrebu ardderchog."*
>
> *"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth yr wyf i a fy nheulu yn ei dderbyn."*
>
> *"Dim cwynion hyd yn hyn, gwasanaeth da iawn."*

<u>Gofal ag urddas</u>

Gwelsom dystiolaeth i ddynodi bod gofal yn cael ei ddarparu i gleifion gydag urddas a pharch. Roedd lle ar gael i'r staff gael sgyrsiau gyda chleifion mewn man preifat, i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, os oes angen, at y diben o gynnal cyfrinachedd cleifion.

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth gan yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol wrth i'r cleifion ddweud eu bod yn fodlon gyda'r gofal a'r driniaeth y maent yn eu derbyn yn y practis a dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael eu croesawu gan y staff.

Gwelsom fod gwybodaeth am bris triniaethau GIG a phreifat ar gael yn yr ystafell aros, fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael eu cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Roedd y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu yn brydlon. Dywedodd cleifion a ymatebodd i'n holiaduron yn ddieithriad nad oeddent wedi dioddef unrhyw oedi cyn derbyn eu triniaeth.

Dywedodd wyth o'r 18 o ymatebwyr i'r holiaduron eu bod yn ansicr am drefniadau brys y tu allan i oriau. Fodd bynnag, gwelsom fod manylion y deintyddion sy'n ymarfer wedi eu harddangos y tu allan i'r adeilad, yn ogystal â'r rhif cyswllt brys. Ychwanegwyd oriau agor y ddeintyddfa ar ddiwrnod yr arolygiad i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol hon i gleifion.

Cadw'n iach

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo i gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion a hybu iechyd ar gael yn yr ystafell aros.

Gofal unigol

Canfuwyd gennym fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a phreifat. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, ond gwelsom fod y weithdrefn gwynion wedi ei harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros i lawr y grisiau. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion gael gafael ar y wybodaeth hon yn rhwydd, os oes ei hangen arnynt.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, ychwanegodd y practis fanylion cyswllt a chyfeiriad AGIC at y weithdrefn gwynion ar gyfer gofal deintyddol preifat fel y gofynnwyd, fel bod hon yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Canfuwyd gennym felly bod y gweithdrefnau'n cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer codi pryderon am driniaeth

GIG (o’r enw ‘Gweithio i Wella’) a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.[1] Rheolwr y practis oedd y rheolwr cwynion dynodedig.

Fe’n hysbyswyd ar adeg yr arolygiad bod canmoliaeth, pryderon a chwynion yn cael eu cofnodi ar ffeiliau cofnodion papur cleifion unigol. Mae angen i’r practis ddatblygu proses ffurfiol a chanolog ar gyfer cofnodi materion o’r fath, y gall y practis ei hadolygu a’i harchwilio yn gyfnodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae’n rhaid i’r practis sicrhau bod proses gyson ar gyfer cofnodi canmoliaeth, pryderon a chwynion. Mae’n rhaid i’r practis allu dangos sut y mae’n monitro camau, canlyniadau ac unrhyw wersi a ddysgwyd.***

Nid oedd gan y practis ffordd a sefydlwyd o ofyn am adborth cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod arolygon bodlonrwydd cleifion yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn gan sefydliadau allanol, ond nad oedd ffordd barhaus wedi’i sefydlu i ofyn am adborth ac awgrymiadau cleifion. Nid oedd yn eglur a oedd y practis wedi ystyried unrhyw adborth a gasglwyd i wneud gwelliannau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae’n rhaid i’r practis gyflwyno ffordd o wrando, dysgu a gweithredu ar sail adborth gyda’r nod o wella gwasanaethau.***

---

[1] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd digon o offer mewn cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen gwneud rhywfaint o waith gweddilliol i ffabrig y cadeiriau deintyddol a'r cypyrddau yn rhai o'r ystafelloedd triniaeth.**

**Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellid eu hatal. Fodd bynnag, roedd rhai rhannau o'r prosesau dadheintio yr oedd angen eu gwella. Roedd yr ystafell ddadheintio i lawr y grisiau, nad oedd yn addas i'r diben, yn cael ei datgomisiynu.**

**Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen archwiliad a thystysgrif radioleg gritigol tair blynedd ar un o'r tri pheiriant pelydr-X.**

**Roedd offer dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuwyd gennym fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddaru rhai agweddau ar yr asesiadau risg amgylcheddol a thân.**

**Roedd y practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu mewn perygl. Fodd bynnag, roedd angen egluro lefel yr archwiliadau diogelu ac roedd angen hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu ar rai o'r staff.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Canfuwyd gennym fod y practis wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn gyffredinol, ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen gwneud rhywfaint o waith gweddilliol i ffabrig cadeiriau deintyddol ac i gypyrddau, lle'r oedd arwyddion o draul yn amlwg i ddrysau a chorneli cypyrddau yn rhai o'r ystafelloedd triniaeth. Canfuwyd gennym hefyd fod deunyddiau deintyddol a oedd heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu cadw yn nroriau'r holl ystafelloedd triniaeth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wneud gwaith atgyweirio gweddilliol i gadeiriau deintyddol a chypyrddau yn yr ystafelloedd triniaeth.***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio fod yr holl ddeunyddiau deintyddol sydd heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu gwaredu'n briodol.***

Gwelsom fod y profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau'r defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol bach yn y practis. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r dystysgrif gwifrau trydanol bum mlynedd ar gyfer y safle.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid diweddaru'r dystysgrif gwifrau trydanol bum mlynedd ac anfon copi i AGIC.***

Edrychwyd ar yr asesiadau risg ar Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd[2] a gwelsom fod taflenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu storio'n ddiogel.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid gwneud a chynnal trefniadau ar gyfer storio pob eitem Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn ddiogel.***

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus ac nad yw'n beryglus. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd un bin cynhwysydd gwastraff peryglus wedi ei storio'n ddiogel o ran materion mynediad at yr ystafell ddadheintio i lawr y grisiau. Nid oedd yr ystafell ddadheintio i lawr y grisiau yn addas i'r diben mewn nifer o ffyrdd. Dywedodd y staff wrthym fod hon yn cael ei datgomisiynu ar unwaith. Roedd ystafell ddadheintio briodol ar gael ar y llawr cyntaf. Roedd cynwysyddion offer miniog wedi eu storio'n ddiogel.

---

[2] http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Ar ôl datgomisiynu'r ystafell ddadheintio i lawr y grisiau, mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel.***

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac wedi cael eu harchwilio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd contract cynnal a chadw offer tân ar waith ac arwyddion ac asesiad risg tân yn amlwg. Cynghorwyd rheolwr y practis i gael gafael ar gyngor pellach o ran man gwagio'r allanfa dân wedi'i leoli yn yr ystafell aros i fyny'r grisiau, fel bod mynediad diogel i blant yn cael ei ystyried ar gyfer y man hwn.

Roedd polisi iechyd a diogelwch a gwelsom fod asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, dylid cynnal adolygiad o asesiadau risg amgylcheddol oherwydd i ni nodi risgiau posibl yn rhannau penodol o'r amgylchedd. Yn benodol, peryglon baglu posibl oherwydd lloriau laminedig a gorchuddion gwrthlithro ar risiau yr oedd angen eu trwsio, y posibiliad o fynediad cleifion at fannau i staff yn unig, a'r angen i ddiogelu data a'u gwneud yn fwy diogel mewn ffeiliau papur cleifion mewn mannau y mae gan gleifion fynediad atynt.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddaru asesiadau risg amgylcheddol a sicrhau bod yr holl risgiau yn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellid eu hatal yn y practis deintyddol hwn. Roedd hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Roedd ystafell ddadheintio ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol ar y llawr cyntaf. Roedd ystafell ddadheintio'r llawr daear yn cael ei datgomisiynu gan nad oedd yn addas i'r diben.

- Offer diogelwch personol fel menig untro, ffedogau ac amddiffynwyr llygaid ar gael ac yn cael eu defnyddio.

- Sinc golchi dwylo benodol.

- Roedd yr offer a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offerynnau yn amlwg mewn cyflwr da.

- Roedd offerynnau'n cael eu storio a'u cludo'n briodol a chynghorwyd gennym y dylid nodi dyddiad prosesu a dyddiad terfyn ar becynnau.

Roedd polisi dadheintio ar waith a hysbyswyd gennym y gallai hwn a pholisïau allweddol eraill gael eu llofnodi a'u dyddio gan staff i gadarnhau eu bod wedi darllen polisïau allweddol. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen gwella archwiliadau cynnal a chadw beunyddiol o ran dadheintio, fel a ganlyn:

- Mae angen i'r practis gwblhau rhestrau gwirio ar ddechrau a diwedd y dydd.
- Cynnal profion helics yn feunyddiol a phrofion gwactod yn wythnosol.

Canfuwyd gennym hefyd bod angen gwella dulliau glanhau cyn-sterileiddio:

- Nid oedd data profion uwchsain yn cael eu cofnodi, ac mae angen cynnal profion Browns a phrotein yn dilyn cyfnodau penodedig.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r archwiliadau cynnal a chadw beunyddiol ar gyfer dadheintio offerynnau er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[3] (WHTM 01-05) ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ar ddadheintio bob pum mlynedd. Mae'n rhaid i gofnodion imiwnedd fod yn gyfredol a chadw cofnod a/neu dystiolaeth o imiwnedd gydol oes pan fo hynny'n berthnasol. Canfuwyd gennym fod statws archwiliadau imiwnedd gwrth-heintiad ar gyfer aelodau staff yn gyfredol.

*Cyffuriau brys ac offer dadebru*

Roedd offer dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (ymgwympiad). Roedd polisi dadebru ar waith gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff.

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

Roedd y cyffuriau brys yn drefnus, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Roedd cofnod o'r archwiliadau cyffuriau brys rheolaidd yn cael ei gynnal. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac roedd taflenni damweiniau wedi'u cwblhau wedi'u ffeilio'n ddiogel i sicrhau diogelwch data.

Gwelsom gofnodion i ddangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis un ymarferydd cymorth cyntaf penodedig yn y tîm a oedd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ac roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod yr aelod o staff a oedd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol yn gweithio'n rhan-amser, ac felly nid oeddem yn sicr bod digon o gynrychiolaeth cymorth cyntaf ar gael.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ystyried rhagor o hyfforddiant cymorth cyntaf i aelodau staff, fel bod digon o gynrychiolaeth cymorth cyntaf ar gael yn y practis.***

*Diogelu*

Roedd y practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith a bod hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen diweddaru hyfforddiant diogelu un aelod o staff. Roedd trefniadau ar waith i staff godi unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hyn yn ymarferol. Fe'n hysbyswyd bod archwiliadau cyn-cyflogi o unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys archwiliadau cymeradwyo gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd archwiliadau cymeradwyo tair blynedd wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar ar gyfer yr holl staff. Fodd bynnag, er bod archwiliadau uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi eu nodi ar ddogfennau'r gwasanaeth, nid oedd archwiliad y gofrestr wahardd ar gyfer plant wedi cael ei gwblhau. Roedd y prif ddeintydd yn ymchwilio i hyn ar adeg yr arolygiad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol hyfforddiant diogelu cyfredol ar gyfer diogelu oedolion a phlant.***

***Mae angen ystyried archwiliadau diogelu uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ymhellach er mwyn sicrhau bod archwiliadau'r gofrestr wahardd ar gyfer plant wedi cael eu cynnal.***

*Offer radiograffig*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau'r defnydd diogel o offer ymbelydredd. Cynghorwyd y practis i adolygu lleoliad un switsh radioleg i sicrhau ei fod wedi'i leoli'n ddiogel. Gofynnodd y practis am gyngor yn dilyn yr arolygiad gan gadarnhau ei fod.

Gwelsom ddogfennau i ddangos bod dau o'r tri pheiriant pelydr-X wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen archwiliad a thystysgrif radioleg gritigol tair blynedd ar un o'r tri pheiriant pelydr-X a oedd ar gael.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch yr archwiliad a'r dystysgrif radioleg gritigol tair blynedd ofynnol trwy ein proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu i ni ysgrifennu at y practis yn syth ar ôl yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol i gamau datrys brys gael eu cymryd. Darperir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad A.

Roedd y practis yn cwblhau archwiliadau radiograff at ddibenion sicrhau ansawdd. Canfuwyd gennym fod staff a oedd yn ymwneud â'r broses o gymryd radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[4] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYÏDM) 2000.[5] Canfuwyd gennym fod angen adolygu a diweddaru'r ffeil diogelwch ymbelydredd. Mae hyn oherwydd bod y ffeil yn gyffredinol ac nid yn benodol i'r practis o ran ei chynnwys. Byddai hefyd yn elwa o gynnwys copïau o dystysgrifau RhYÏDM a chofnod cyfredol o hyfforddiant RhYÏDM.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygu'r ffeil diogelwch ymbelydredd fel ei bod yn benodol i'r practis.***

---

[4] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[5] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

*Cofnodion cleifion*

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deintyddol a chawsom sgyrsiau gyda dau o'r ymarferwyr deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cadw cofnodion a gofal cleifion o ansawdd da.

Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella gennym:

- Nid oedd hanesion meddygol wedi'u cydlofnodi'n gyson gan y deintyddion a'r claf i nodi eu bod wedi cael eu gwirio. Nid oedd system eglur o'u diweddaru.
- Nid oedd cyngor rhoi'r gorau i smygu a sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi'n gyson.
- Nid oedd dynodiadau *bitewing* radiograffig yn cael eu cofnodi yn rheolaidd.
- Nid oedd cynlluniau triniaeth yn cael eu trafod a'u cofnodi fel mater o drefn.
- Cyfiawnhad a chanfyddiadau radiograff i gael eu cofnodi bob amser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid cynnal cofnodion cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau o ran y canfyddiadau penodol a nodir yn yr adroddiad.***

## Gofal effeithiol

Mae'r cleifion yn elwa o bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd â rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau.

Nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol i staff gynnal archwiliadau adolygu cymheiriaid rheolaidd gyda'i gilydd. Cynghorwyd y practis bod dysgu o adolygiadau ac archwiliadau cymheiriaid yn cyfrannu at ansawdd y gofal a ddarperir. Trafodwyd yr amrywiaeth o bynciau archwilio a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru a dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod wedi ystyried trefnu amser i'r staff gynnal archwiliadau fel tîm.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu cymheiriaid rheolaidd, fel ffordd o ddysgu mwy, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.***

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Mae gan Bractis Deintyddol Talbot Street dîm practis sydd wedi'i hen sefydlu â throsiant staff isel. Darperir rheolaeth y practis o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd a rheolwr practis rhan-amser. Roedd y staff i ni siarad â nhw wedi ymrwymo i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.**

**Canfuwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i rai polisïau, gweithdrefnau a phrosesau archwilio. Roedd angen gwella gwaith cadw cofnodion a diweddaru hyfforddiant hefyd. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith i fynd i'r afael â hyn.**

Cyfrifoldeb y prif ddeintydd a rheolwr y practis oedd rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dîm staff wrth eu gwaith a oedd yn ymddangos yn hapus ac yn gymwys yn cyflawni eu swyddogaethau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd tystiolaeth bod gwerthusiadau staff wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff. Canfuwyd gennym fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn cyfnod ymsefydlu a'u bod yn cael eu hysbysu am bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Fe'n hysbyswyd bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi.

Cadarnhawyd gennym fod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd yr holl ddeintyddion sy'n darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis.

Edrychwyd ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu. Roedd angen rhagor o fanylion mewn rhai polisïau fel y dynodwyd yn yr adroddiad a chynghorwyd rheolwr y practis i ystyried datblygu eu polisi sicrhau ansawdd, i sefydlu proses barhaus o archwilio ac adolygu, fel ffordd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Nodwyd gennym fod angen rhoi ystyriaeth i'r broses o storio ac archifo ffeiliau cleifion, er mwyn sicrhau diogelwch data personol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r broses o storio ffeiliau cleifion i gynnal diogelwch data personol.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Talbot Street yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r bwrdd iechyd roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a’i werthuso yn rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[7] Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Talbot Street

## Dyddiad yr Arolygiad: 26 Ionawr 2017

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **CAMAU SICRWYDD AR UNWAITH** | | | | | |
| | Canfyddiadau<br><br>Canfuwyd bod y dogfennau archwilio critigol ar gyfer yr offer ymbelydredd yn y drydedd ystafell driniaeth yn hen**.**<br><br>**Fe'ch hysbyswyd gennym ar 26 Ionawr 2017, a chytunwyd gennych, na fyddai'r peiriant hwn yn cael ei ddefnyddio tan i chi dderbyn tystysgrif archwiliad critigol gyfredol i brofi bod y peiriant hwn yn ddiogel i'w ddefnyddio.**<br><br>**Angen Gwella ar Unwaith**<br><br>Mae'n ofynnol i'r practis: | Y Safonau Gofal Iechyd 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (3) (a) (b)<br><br>*Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999* | Nid yw'r peiriant wedi cael ei ddefnyddio ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio tan i'r tystysgrifau gofynnol gael eu derbyn. Mae'r peiriant dan sylw yn ystafell driniaeth un (llawr cyntaf), nid yn ystafell driniaeth tri fel y nodwyd.<br><br>Cysylltwyd â thechnegydd priodol ac mae'n dod i'r ddeintyddfa ar 31 Ionawr i gynnal yr holl brofion angenrheidiol. Bydd tystysgrif yn cael ei darparu cyn gynted ag y bydd y canlyniadau'n cael eu prosesu. | Dr Rachel Coles | Ar unwaith.<br><br>Bydd profion yn cael eu cwblhau erbyn 31 Ionawr a bydd tystysgrifau'n cael eu darparu i AGIC cyn gynted ag y bydd y practis yn eu |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| wneud trefniadau i'r offer ymbelydredd gael ei archwilio gan unigolyn priodol<br>darparu dogfennau priodol i AGIC i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. | | *Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | Profwyd y peiriant ac ardystiwyd ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ar 31 Ionawr 2017. Cynhaliwyd profion ac ardystiad ac anfonwyd y gwaith papur perthnasol i AGIC. | | derbyn.<br>Cwblhawyd 31 Ionawr 2017 |
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | | |
| 7 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ganolog ar gyfer cofnodi canmoliaeth, pryderon a chwynion, gan sicrhau bod adolygiad cyfnodol o'r cofnodion hyn yn cael ei gynnal a bod dull cyson yn cael ei ddilyn, a bod camau, canlyniadau ac unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu nodi. | Y Safonau Gofal Iechyd 6.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>16 (7)<br>*Safon Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.7* | Crëwyd ffeil 'Sylwadau, Pryderon a Chwynion'. Caiff hon ei chadw yn y dderbynfa.<br>Os oes gan gleifion sylw, pryder neu gŵyn, gofynnir iddynt lenwi taflen yn nodi'r wybodaeth hon. Ceir adran 'canlyniad' ar ddiwedd y daflen, lle gall y staff gofnodi canlyniad y sylw/cwyn ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd.<br>Caiff y ffeil ei hadolygu ym mhob cyfarfod practis. | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd 31 Ionawr 2017 |
| 7 | Mae'n rhaid i'r practis gyflwyno ffordd o wrando, dysgu a gweithredu | Y Safonau Gofal Iechyd | Bydd holiadur 'adborth cleifion' tebyg i'r un a ddefnyddir gan AGIC | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ar sail adborth gyda'r nod o wella gwasanaethau. | 6.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (a)<br>*Safon Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1* | yn cael ei greu a'i roi i gleifion ar hap i asesu profiad cyffredinol y claf ac i nodi unrhyw welliannau y gallwn eu gwneud i'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu. Bydd adborth ac awgrymiadau ar gyfer gwella yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff, lle bydd cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer unrhyw welliannau, os oes angen. | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | | |
| 9 | Mae'n rhaid i'r practis wneud gwaith atgyweirio gweddilliol i gadeiriau deintyddol a chypyrddau yn yr ystafelloedd triniaeth. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (3) (b)<br>*Safon Canllawiau'r* | Mae drysau cypyrddau newydd wedi cael eu harchebu.<br>Cysylltwyd â gorchuddiwr cadeiriau deintyddol a gwnaed trefniadau i'r cadeiriau deintyddol gael eu trwsio. | Dr Rachel Coles | 31/7/2017 |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5* | | | |
| 9 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio fod yr holl ddeunyddiau deintyddol sydd heibio eu dyddiad terfyn yn cael eu gwaredu'n briodol. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.6<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (3) (a)<br>Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Gwarchod Diogel) (diwygio) 2001 | Ychwanegwyd gwirio dyddiadau terfyn ar gyfer yr holl ddeunyddiau at y rhestr o archwiliadau beunyddiol i gael eu cynnal ym mhob ystafell driniaeth. | Dr Robert P C Coles | Cwblhawyd |
| 9 | Mae'n rhaid diweddaru'r dystysgrif gwifrau trydanol bum mlynedd ac anfon copi i AGIC. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth | Cwblhawyd profion trydanol ar yr adeilad ar 18 Chwefror 2017. Rhai mân ddarnau o waith atgyweirio i gydymffurfio â chanllawiau newydd i gael eu trefnu. Tystysgrif i ddilyn. | Dr Robert P C Coles | 31/5/2017 |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989* | | | |
| 9 | Mae'n rhaid gwneud a chynnal trefniadau ar gyfer storio pob eitem Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn ddiogel. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002* | Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd i gael eu hadolygu. Cedwir eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn yr ystafell storio yng nghefn y practis erbyn hyn. Cedwir y cyfleuster storio hwn wedi ei gloi. | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd |
| 10 | Ar ôl datgomisiynu'r ystafell ddadheintio i lawr y grisiau, mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei storio'n | Y Safonau Gofal Iechyd 2.1, 2.9 | Datgomisiynwyd yr ystafell ddadheintio i lawr y grisiau ac nid yw'n cael ei defnyddio ar gyfer storio gwastraff clinigol mwyach. | Dr Robert P C Coles | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddiogel. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 | Mae hwn yn cael ei storio mewn man diogel erbyn hyn. | | |
| 10 | Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddaru asesiadau risg amgylcheddol a sicrhau bod yr holl risgiau yn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999* | Mae adolygiad wedi cael ei gynnal o'r asesiadau risg amgylcheddol sy'n bodoli eisoes ar gyfer mannau clinigol ac anghlinigol.<br>Rhoddwyd arwydd ar y fynedfa i'r ddeintyddfa yn rhybuddio cleifion ac ymwelwyr am lawr anwastad.<br>Gwnaed gwaith atgyweirio ar y gorchuddion gwrthlithro ar y grisiau.<br>Gosodwyd arwyddion 'Staff yn Unig' yn y mannau 'Staff yn Unig' penodedig.<br>Rhoddwyd clo ar ddrws yr ystafell | Dr Robert P C Coles | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | storio i lawr y grisiau. | | |
| 11 | Mae’n rhaid i’r practis adolygu’r archwiliadau cynnal a chadw beunyddiol ar gyfer dadheintio offerynnau er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (4)<br>*WHTM 01-05* | Mae rhestrau gwirio dechrau a diwedd y dydd newydd yn cael eu defnyddio.<br>Caiff profion protein eu cynnal yn wythnosol a’u cofnodi. | Mrs Catherine Griffiths | Cwblhawyd |
| 12 | Mae’n rhaid i’r practis ystyried rhagor o hyfforddiant cymorth cyntaf i aelodau staff, fel bod digon o gynrychiolaeth cymorth cyntaf ar gael yn y practis. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (a)<br>*Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981* | Mae gennym aelod o staff llawn amser sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf erbyn hyn. | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Mae angen i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol hyfforddiant diogelu cyfredol ar gyfer diogelu oedolion a phlant. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.7<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Safon Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3, 8.5* | Nid oedd tystysgrifau hyfforddiant diogelu un aelod o staff ar gael ar adeg yr arolygiad ac ni ellid dod o hyd iddynt. Derbyniodd yr aelod o staff hwn hyfforddiant diogelu ar 8 Mawrth 2017 a darparwyd tystysgrifau i AGIC. | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd |
| 13 | Mae angen ystyried archwiliadau diogelu uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ymhellach er mwyn sicrhau bod archwiliadau'r gofrestr wahardd ar gyfer plant wedi cael eu cynnal. | Y Safonau Gofal Iechyd 7.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Safon* | Cysylltwyd â Heddlu Dyfed–Powys am y tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y maent wedi eu darparu, ac fe'n hysbyswyd bod y tystysgrifau cywir wedi cael eu cyflwyno. Rydym wedi gofyn am dystysgrifau newydd ar gyfer yr holl staff yn unol â chais AGIC. | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.1.6* | | | |
| 13 | Mae angen adolygu'r ffeil diogelwch ymbelydredd fel ei bod yn benodol i'r practis. | Y Safonau Gofal Iechyd 2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | Adolygwyd ac ad-drefnwyd y ffeil diogelwch ymbelydredd.<br>Lluniwyd log o'r holl offer pelydr-X a siart o'r dyddiadau y bydd angen eu harchwilio a'u hailardystio ar gyfer pob ystafell driniaeth. | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd |
| 14 | Mae'n rhaid cynnal nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau cadw | Y Safonau Gofal Iechyd | Mae'r deintyddion wedi cytuno i fod yn fwy systematig o ran cymryd | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau o ran y canfyddiadau penodol a nodir yn yr adroddiad. | 3.3, 3.5, 4.2<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>*Safon Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4* | nodiadau.<br><br>Caiff hanes meddygol claf ei wirio ym mhob ymweliad bob amser. Fodd bynnag, gwnaed trefniadau i ffurflenni hanes meddygol gael eu llofnodi a'u dyddio gan y deintydd a'r claf ym mhob ymweliad.<br><br>Bydd cyfiawnhad a chanfyddiadau ar gyfer pob radiograff a gymerir yn cael eu cofnodi.<br><br>Caiff archwiliadau sgrinio canser eu cynnal yn rhan o'r archwiliadau meinwe feddal a gynhelir ym mhob apwyntiad archwilio.<br><br>Fodd bynnag, bydd prawf sgrinio canser y geg yn cael ei gofnodi hefyd nawr.<br><br>Trefnwyd archwiliad yn y practis o nodiadau cleifion.<br><br>Pan roddir cyngor ynghylch rhoi'r gorau i smygu, bydd hyn yn cael ei gofnodi hefyd.<br><br>Bydd cynllun triniaeth ysgrifenedig yn cael ei drafod fel mater o drefn | | |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a'i lofnodi gan y claf cyn triniaeth. | | |
| 14 | Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu cymheiriaid rheolaidd, fel ffordd o ddysgu mwy, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. | Y Safonau Gofal Iechyd 3.3<br><br>*Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2008, Adran 16 A (1)* | Roedd archwiliadau radiograffig yn cael eu cynnal. Roeddem yn cyflwyno'r defnydd o ddull datblygu arfer 'Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd' ac yn derbyn cyfarwyddyd gan ein Tiwtor Gwella Ansawdd Arfer a ddarparwyd gan Ddeoniaeth Cymru.<br><br>Rydym wedi datblygu ac ehangu ymhellach ein prosesau adolygu cymheiriaid ffurfiol a sicrhau ansawdd arfer amgylcheddol cyffredinol erbyn hyn. | Dr Rachel Coles | Cwblhawyd |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | | |
| 15 | Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r broses o storio ffeiliau cleifion i gynnal diogelwch data personol. | Y Safonau Gofal Iechyd 3.4<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b) | Adolygwyd y broses ar gyfer storio ffeiliau cleifion.<br><br>Bydd cypyrddau ffeilio lle cedwir ffeiliau cleifion yn cael eu cadw ar glo bob amser. Atgoffwyd holl aelodau'r staff y dylid cloi'r cypyrddau ar ôl eu defnyddio bob tro, a bydd yr allweddi'n cael eu cadw mewn cwpwrdd diogel y tu ôl | Dr R P C Coles | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Deddf Diogelu Data 1998* | i ddesg y dderbynfa. | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** **Dr Rachel Coles**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **8/03/2017**